

SOSIALAETH: GWEITHGAREDDAU

Cwestiynau traethawd (A01, A02, A03)

Lluniwch draethodau llawn sy'n trafod y cwestiynau isod.

1	'Yn ein hanfod rydym oll yn greaduriaid cymdeithasol sy'n meddu ar y gallu i gydweithio'n effeithiol ag eraill.' Cloriannwch yn feirniadol y dehongliad Sosialaidd hwn o'r natur ddynol.
2	'Mae anghydraddoldeb yn rhan anochel o weithrediad cyfalafiaeth.' Trafodwch gan gyfeirio at syniadau o leiaf dau feddyliwr sosialaidd pwysig.
3	I ba raddau y mae syniadau Karl Marx yn parhau'n berthnasol heddiw?
4	I ba raddau y mae'r gallu i weithredu diwygiadau Democratiadd Cymdeithasol yn gwbl ddibynol ar sicrhau twf economaidd yn gyntaf?
5	'Nid oes yr un ideoleg wleidyddol arall wedi dylanwadu ar wleidyddiaeth Cymru cymaint â sosialaeth.' Trafodwch.
6	Cloriannwch yn feirniadol y ddadl Farcsaidd mai strwythur y gyfundrefn gyfalafol fyd-eang yw'r prif ffactor sy'n esgor ar dlodi dibyniaeth gwledydd yr 'ymylon'.

Wrth baratoi i lunio eich traethodau meddyliwch yn ofalus ynglŷn â'r pwyntiau canlynol:

- i) Cyn cychwyn ysgrifennu sicrhewch eich bod wedi deall beth mae'r cwestiwn yn gofyn i chi ei drafod. Mae'r traethodau gorau yn rhai sy'n meddu ar ffocws clir ac ond yn trafod deunydd sy'n berthnasol er mwyn ateb y cwestiwn.
- ii) Cymerwch amser i gynllunio eich traethawd yn ofalus. Meddyliwch pa bwyntiau gwahanol y credwch sydd angen eu trafod a meddyliwch yn ofalus ynglŷn ag ym mha drefn y dylid trafod y pwyntiau hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod eich traethawd yn meddu ar strwythur clir ac felly yn osgoi nodweddion anffodus megis ailadrodd.
- iii) Mae'n bwysig bod eich traethawd yn cyflwyno gwybodaeth berthnasol, ond ar yr un pryd dylech ymdrechu i sicrhau nad darn disgrifiadol yn unig yw eich traethawd. Mae pob un o'r cwestiynau traethawd uchod yn rhai sydd yn gofyn i chi drafod a dadansoddi (sylwch ar y defnydd o dermau megis 'cloriannwch' neu 'i ba raddau'). O ganlyniad, mae angen i'ch traethawd fod yn ddarn sy'n pwysu a mesur gwahanol safbwyntiau a dadleuon, ochr yn ochr â chyflwyno gwybodaeth amdanynt.
- iv) Yn ogystal, mae'n bwysig bod eich traethawd yn un sy'n datblygu dadl glir mewn ymateb i'r cwestiwn. Sylwch fod y cwestiynau uchod oll yn rhai sydd mewn rhyw fodd yn gofyn i chi ddatblygu safbwynt penodol. Bydd y traethodau gorau yn datblygu'r ddadl neu'r safbwynt yma yn raddol drwy'r gwaith, yn hytrach nag aros i'w gyhoeddi'n gryno yn y paragraff clo.